Leighton Andrews AC / AM
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref SF/LA/276/12

Christine Chapman, AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

21 Awst 2012

Annwyl Chris,

Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) - cais am dystiolaeth atodol ar ôl y cyfarfod ar 19 Gorffennaf 2012

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Gorffennaf wedi i mi fod gerbron y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar 19 Gorffennaf.

Yn Atodiad 1, ceir yr wybodaeth am gostau y gofynnodd y Pwyllgor amdani. Fel y soniais, nid oes unrhyw newidiadau arwyddocaol i'r amcangyfrifon a bennir yn y Memorandwm Esboniadol. Serch hynny, efallai yr hoffai'r Pwyllgor nodi bod yr amcanestyniad o'r gost i awdurdodau lleol ar gyfer arolygu'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi cael ei ddiwygio ychydig bach tuag i lawr.

Fe wnes i hefyd gytuno i ysgrifennu at y Pwyllgor i egluro'r weithdrefn graffu a fyddai'n cael ei defnyddio ar gyfer cynigion pellach gan Weinidogion Cymru i resymoli lleoedd mewn ysgolion o dan adran 60 yn unol ag adran 63(1)(c).

Pur anaml y byddai Gweinidogion Cymru yn defnyddio'u pŵer i wneud cynigion pellach o dan adran 63(1)(c). Byddai hynny ond yn digwydd lle'r oedd Gweinidogion Cymru yn y gorffennol:

1) wedi cyfarwyddo awdurdod lleol neu gorff llywodraethu i wneud cynigion;
2) ac wedyn wedi penderfynu gwneud eu cynigion eu hunain am nad oeddynt wedi cael eu bodloni gan ganlyniad y cyfarwyddyd hwnnw; a
3) wedi achosi i ymchwiliad lleol gael ei drefnu i ystyried eu cynigion eu hunain.

Felly, mae'r broses sy'n arwain at gyhoeddi cynigion pellach o dan adran 63(1)(c) yn debygol o fod yn faith iawn. Ymddengys yn briodol, felly, os bydd Gweinidogion Cymru, ar ôl ystyried canlyniad yr ymchwiliad lleol, yn penderfynu bod angen cynigion pellach er mwyn

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Leighton.Andrews@wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)
Printed on 100% recycled paper

mynd i'r afael â darpariaeth ormodol (neu, fel sydd efallai'n bwysicach yn y cyd-destun hwn, darpariaeth annigonol), bod modd i'r broses honno gael ei chwblhau cyn gynted ag y bo modd.

Serch hynny, byddai angen cyhoeddi'r cynigion hyn o hyd (gweler adran 60), byddai cyfle o hyd i gyflwyno gwrthwynebiadau (gweler adran 61), a byddai Gweinidogion Cymru, gan weithredu yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, yn dal i orfod talu sylw i'r gwrthwynebiadau hynny cyn penderfynu mabwysiadu'r cynigion neu beidio â mabwysiadu'r cynigion.

Mewn amgylchiadau o'r fath, rwy'n fodlon bod y broses o wrthwynebu a mabwysiadu, ynghyd â dyletswydd gyffredinol Gweinidogion Cymru i weithredu'n rhesymol wrth arfer eu swyddogaethau, yn ddigon i sicrhau bod buddiannau dysgwyr ac eraill yn cael eu diogelu.

Hyderaf fod yr wybodaeth yn yr atodiad i'r llythyr hwn o gymorth i chi a'i bod yn ateb cwestiynau'r Pwyllgor.

Yn gywir



Leighton Andrews AC / AM
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills

BIL SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU)

Cais gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc am dystiolaeth atodol ar ôl y cyfarfod ar 19 Gorffennaf 2012

Gwella Ysgolion

Beth yw'r rhagdybiaethau manwl sy'n sail i'r £1.7 miliwn (£0.6 miliwn ar gyfer codi ymwybyddiaeth gydag ysgolion ac awdurdodau lleol; £0.1 miliwn ar gyfer casglu ynghyd arferion gorau a £1.0 miliwn sy'n gysylltiedig â chymorth awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion) o gostau untro ar gyfer cydgrynhoi, a lle bo angen, diwygio'r darpariaethau presennol o dan gwella ysgolion? (Gweler paragraffau 8.19, 8.24 ac 8.25 o'r Memorandwm Esboniadol)

Mae'r dadansoddiad o'r costau i weithredu un maes polisi â blaenoriaeth yn rhoi costau datblygu a gweithredu untro o £1.7 miliwn, dros gyfnod o 5 mlynedd. Mae'r costau rhagamcanol hyn sy'n ymwneud â'r canllawiau gwella ysgolion yn cynnwys £108,000 ar gyfer casglu arferion gorau a sicrhau eu hansawdd, £1,000,000 ar gyfer costau cymorth yr awdurdodau lleol, £530,000 ar gyfer codi ymwybyddiaeth a £45,000 o gostau gwerthuso. Seiliwyd y dadansoddiad ar y costau gwirioneddol i ddatblygu a gweithredu'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.

Mae'r costau hyn yn seiliedig ar ddatblygu a gweithredu **un maes polisi arwyddocaol â blaenoriaeth.** Bydd y costau gwirioneddol yn dibynnu ar nifer a chwmpas/maint y strategaethau ar gyfer gwella ysgolion sydd wrthi'n cael eu datblygu ar adeg benodol. Bydd hyn yn dibynnu ar y blaenoriaethau gwella ysgolion sy'n fater o frys, ond mae'n ddigon posibl y bydd canllawiau o'r fath yn rhai ansoddol ac felly'n arwain at braidd ddim neu ddim costau.

A fydd y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion yn cael ei chwyddo gan £1.7 miliwn i ariannu'r costau untro sy'n gysylltiedig â gwella ysgolion neu a fydd rhaid i hyn gael ei dalu o'r ddarpariaeth bresennol? (Gweler paragraff 8.25 o'r Memorandwm Esboniadol)

Amcangyfrif yw'r £1.7 miliwn, ac enghraifft ydyw, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed ar y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Efallai na fydd canllawiau newydd ar faterion eraill yn dilyn yr un patrwm, ond erys yr egwyddor pe byddai costau gweithredu sylweddol ar ysgolion neu awdurdodau lleol mai Llywodraeth Cymru fyddai'n ariannu'r rheini.

Yn ymarferol, nid yw'n dilyn y bydd costau o'r fath yn cael eu gwireddu: os bydd y canllawiau, er enghraifft, yn ymwneud â gwelliannau mewn llythrennedd neu rifedd, mae'r rheini eisoes yn rhan o fusnes craidd yr ysgolion a'r Awdurdodau Lleol a byddai'r canllawiau'n awgrymu gwell ffyrdd o'u gweithredu. Mae'n ddigon posibl y byddai'r rheini'n fwy costeffeithiol ac na fyddai felly unrhyw gostau pellach.

Sut mae'r costau parhaus o hyd at £2.5 miliwn dros bum mlynedd mewn perthynas â chostau cymorth ar gyfer cyflawni gwelliannau i ysgolion wedi cael eu cyfrifo a sut fyddan nhw'n cael eu hariannu? (Gweler paragraff 8.26 o'r Memorandwm Esboniadol)

Mae'r amcanestyniad o £2.5 miliwn o gostau parhaus yn seiliedig ar amcangyfrif o gyllid i gefnogi dyletswyddau ychwanegol Swyddog Gwella Ysgolion/Arweinydd Systemau'r awdurdod lleol, gan gymryd y bydd un Swyddog Awdurdod Lleol yn gweithio yn y clwstwr ysgol. Mae'r costau hyn yn seiliedig ar gostau grant yr Awdurdod Lleol i gefnogi'r Cynllun Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ac amcangyfrif o gostau Arweinwyr Systemau i gefnogi cynlluniau ymyrraeth wedi'u targedu ar gyfer llythrennedd a rhifedd.

Amcangyfrifwyd y byddai'r costau cymorth cychwynnol yn £1,000,000. Mae'r costau cymorth parhaus yn seiliedig ar ddyraniad o £500,000 y flwyddyn (am hyd at 5 mlynedd), wrth i lefel y cymorth Awdurdod Lleol leihau ac wrth i'r polisi ddechrau cynnal ei hun.

Byddai Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ychwanegol i gefnogi'r costau gweithredu trosiannol, lle bo angen am hynny, drwy'r Grant Cynnal Refeniw. Serch hynny, fel y nodwyd uchod, mae'n bosibl mewn gwirionedd na fydd unrhyw gostau gweithredu ar ysgolion ac Awdurdodau Lleol os mai'r cyfan sydd yn y canllawiau yw ffyrdd mwy effeithiol o gyflawni'r busnes craidd.

Pryd fydd y costau sy'n gysylltiedig â hyfforddiant dilynol ar gyfer ysgolion yn hysbys a phryd fyddan nhw ar gael? (Gweler paragraff 8.26 o'r Memorandwm Esboniadol)

Byddai'n rhaid i'r costau gwirioneddol gael eu cyfrifo drwy gyfeirio at achosion gwirioneddol. Felly, nid oes modd mesur y costau gwirioneddol o ddarparu hyfforddiant dilynol i ysgolion ar hyn o bryd oherwydd bydd lefel yr hyfforddiant yn dibynnu ar gymhlethdod y strategaethau gwella ysgolion yn y dyfodol. Mae'r amcanestyniad o £430,750 ar gyfer hyfforddiant yn yr ysgol ac adnoddau i gefnogi un maes polisi â blaenoriaeth yn seiliedig ar y gost i un ymarferydd o bob ysgol fynychu diwrnod hyfforddiant (x 1,723 o ysgolion) am gost o oddeutu £250 yr athro. Tybir wedyn y bydd yr hyfforddiant yn cael ei raeadru.

Pryd fydd y costau sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau'r fframwaith statudol gwella ysgolion yn y dyfodol yn hysbys a phryd fyddan nhw ar gael? (Gweler paragraff 8.27 o'r Memorandwm Esboniadol)

Mae gwaith eisoes ar y gweill i baratoi corff o astudiaethau achos, deunyddiau ac adnoddau ynghylch y dystiolaeth a'r ymchwil ddiweddaraf ym maes ymarfer effeithiol, a sefydlu methodoleg ar gyfer casglu a lledaenu'r arferion gorau. Caiff adnoddau addysgu o'r radd flaenaf eu cyhoeddi ar-lein a byddant yn cael eu lansio ym mis Medi 2012 ar Dysgu Cymru. Pan fydd y gwaith hwn wedi'i orffen, byddwn yn ystyried meysydd a allai, yn ôl y dystiolaeth, elwa ar ganllawiau gwella statudol a byddwn yn gwneud asesiad manwl o'u heffaith i helpu i gyflwyno'r canllawiau.

Fel y soniwyd uchod, byddai costau a manteision unrhyw ganllawiau statudol penodol yn cael eu hasesu pan fyddant yn cael eu cyflwyno. Rydym yn rhagweld mai ansoddol fydd y cyfryw ganllawiau yn ôl pob tebyg, ac felly'n golygu braidd ddim neu ddim costau.

Paneli Dyfarnu Lleol

Yn y Memorandwm Esboniadol sonnir mai ychydig o gostau (hyd at uchafswm o £5,000) sy'n gysylltiedig â gweithredu panel dyfarnu lleol, ond y gallai'r rheini amrywio yn ôl cymhlethdod y cynigion. Beth yw'r rhagdybiaethau manwl sy'n sail i'r ffigur hwn, a pha ystyriaeth a wnaed, os o gwbl, i unrhyw gyngor proffesiynol/cyfreithiol a ddarperir? (Gweler paragraff 8.56 o'r Memorandwm Esboniadol)

Mae'r amcanestyniad o'r costau yn caniatáu ar gyfer darparu rhywfaint o gyngor cyfreithiol lle bo angen. Mae'n seiliedig ar nifer y cyfarfodydd y disgwylir y bydd angen i'r paneli dyfarnu lleol eu cynnal er mwyn dod i benderfyniad - dau neu dri yn y rhan fwyaf o achosion - a'r costau o gynnal y cyfryw gyfarfodydd, gan gynnwys hurio ystafelloedd, lluniaeth a threuliau. Mae'r wybodaeth a gafwyd gan yr awdurdodau lleol yn awgrymu na ddisgwylir i gostau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd fod yn fwy na £2,500 ac y byddent lawer yn is yn y rhan fwyaf o achosion (o gofio mai dim ond 6 unigolyn fydd yn rhan o'r cyfarfodydd hyn ac y byddai awdurdodau lleol, yn aml iawn, yn medru darparu ystafell gyfarfod am ddim.) Caniatawyd hefyd ar gyfer costau ychwanegol am waith clercio a gwaith gweinyddol - cyfanswm o tua 10 diwrnod gwaith gan mwyaf. Byddai hyn yn cynnwys derbyn papurau a'u dosbarthu, trefnu cyfarfodydd, a drafftio a chyhoeddi llythyr am benderfyniad y panel. Nid ydym yn disgwyl y bydd y costau hyn yn fwy na £2,500, a byddem yn disgwyl iddynt fod lawer yn is yn y rhan fwyaf o achosion.

I bob golwg, mae'r rhai a gwestiynodd yr amcangyfrifon wedi camddeall natur proses y paneli dyfarnu lleol. Ni fydd y paneli dyfarnu lleol yn cynnal gwrandawiadau drudfawr yn null tribiwnlys lle mae angen cynrychiolaeth cyfreithwyr a sylwadau cyfreithiol. Bydd y Cod Trefniadaeth Ysgolion yn ei gwneud yn ofynnol bod y penderfyniad yn cael ei wneud ar sail y dystiolaeth ysgrifenedig yn unig. O ran cyngor cyfreithiol, yr awdurdod lleol fyddai'n darparu hwnnw, os bydd angen amdano. Mater iddyn nhw fydd penderfynu sut mae gwneud hynny.

Hefyd, mae'n werth nodi nad oedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor, wedi codi unrhyw bryderon penodol mewn perthynas â'r amcangyfrif o gost y paneli dyfarnu lleol na chywirdeb yr amcangyfrif o'r costau hynny.

Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg

Beth yw'r rhagdybiaethau manwl sy'n sail i'r costau refeniw parhaus sy'n gysylltiedig â'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, sef yr £0.5 miliwn o gostau gweinyddol a'r £0.1 miliwn ar gyfer gweinyddu a dadansoddi arolygon? *(Gweler paragraffau 8.66, 8.67 ac 8.72 o'r Memorandwm Esboniadol)*

Amcangyfrif yw'r costau refeniw parhaus ar gyfer Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol fel ei gilydd.

Amcangyfrif o gostau Llywodraeth Cymru

Costau gweinyddol

Mae costau gweinyddol Llywodraeth Cymru yn gysylltiedig â gweinyddu proses y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Bydd yn ofynnol i bob awdurdod lleol gyflwyno ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i'w gymeradwyo a'i fonitro. Bydd hyn yn golygu neilltuo staff i gadw llygad ar y drefn o gyflwyno'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac i gyfrannu at y broses gymeradwyo a monitro. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn:

asesu pob Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg;
rhoi adborth unigol i'r awdurdodau lleol;
trafod yr adborth gyda swyddogion yr awdurdod lleol;
derbyn diweddariadau am y cynnydd a wnaed ac ymateb iddyn nhw.

Hefyd, bydd angen rhoi cyngor i'r Gweinidog.

Ar sail y gwaith a wnaed ar y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a gyflwynwyd yn wirfoddol eisoes gan yr Awdurdodau Lleol, mae angen 3 aelod o staff amser llawn cyfatebol, ac mae hynny, ynghyd â'r costau teithio cysylltiedig, yn dod i gyfanswm o £116,000. Mae'r cyfanswm hwn yn seiliedig ar y costau gweinyddol ac amser y staff presennol, sy'n cyfateb i 3 staff amser llawn ym Mand E (3 x £38,000), a chostau teithio i gyfarfod ag awdurdodau lleol, sef oddeutu £2,000. Mae'r costau cyfartalog blynyddol a rheolaidd hyn eisoes yn cael eu hariannu o Gostau Rhedeg Dirprwyedig Llywodraeth Cymru.
Cyfanswm: £116,000

Amcangyfrif o gostau'r awdurdodau lleol

Costau sy'n gysylltiedig â pharatoi, cyflwyno a gweithredu'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg

Ar gyfer awdurdodau lleol, bydd angen amser swyddogion i baratoi, cyflwyno ac ymateb i adborth. Hefyd, bydd angen neilltuo amser i gyfarfod â swyddogion Llywodraeth Cymru ac i wneud a chefnogi'r trefniadau monitro ar gyfer gweithredu'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn ardal yr awdurdod lleol. Mae costau tebygol y gweithgarwch hwn yn seiliedig ar y costau gweinyddol ac amser staff, sy'n cyfateb i 2 staff amser llawn ar gyfartaledd am ddim ond 1-2 mis y flwyddyn.
Cyfanswm: amcangyfrifir uchafswm o £14,000 fesul awdurdod lleol
Cyfanswm: amcangyfrifir na fydd y costau'n uwch na £308,000 ar draws yr awdurdodau lleol.

Cyhoeddi'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg

Byddai costau bach i awdurdodau lleol i gyhoeddi'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ar eu gwefannau eu hunain a darparu copïau papur os gofynnir am hynny. Gallai'r costau cysodi ac argraffu fod tua £2,000 am 1,500 o gopïau.

Cyfanswm: amcangyfrifir uchafswm o £2,000 fesul awdurdod lleol
Cyfanswm: amcangyfrifir na fydd y costau'n uwch na £44,000 ar draws yr awdurdodau lleol.

Cynnal arolygon i fesur y galw am addysg cyfrwng Cymraeg ymhlith rhieni
Bydd costau hefyd ar awdurdodau lleol am gynnal arolygon rheolaidd i fesur y galw am addysg cyfrwng Cymraeg. Tybir bod y gost o weinyddu a dadansoddi arolygon, ar gyfartaledd, yn uchafswm o £15,000 yr un. Mae'r canllawiau'n argymell cynnal arolygon unwaith bob 3 blynedd. Felly, mae'n debygol na fydd y gost ar gyfartaledd am gynnal arolygon o'r fath yn fwy na £5,000 y flwyddyn fesul awdurdod lleol. Byddai hyn yn dod i £110,000 y flwyddyn ar draws yr holl awdurdodau lleol. Ond dylid cadw mewn cof bod 15 awdurdod lleol wedi mynd ati'n rheolaidd i fesur y galw a'u bod eisoes yn ariannu'r prosesau hyn eu hunain. Hefyd, yn yr amgylchiadau a amlinellir yn y rheoliadau, ni fyddai angen i bedwar awdurdod lleol fesur y galw am addysg cyfrwng Cymraeg. Felly, byddai'r gost gyffredinol yn fwy tebygol o fod tua £5,000 y flwyddyn ar gyfer 18 awdurdod lleol, sydd felly ychydig yn is na'r £110,000 a amcangyfrifwyd yn y Memorandwm Esboniadol.
Cyfanswm: amcangyfrifir uchafswm o £5,000 fesul awdurdod lleol
Cyfanswm: amcangyfrifir na fydd y costau'n uwch na £90,000 ar gyfer 18 awdurdod lleol.

Beth yw'r rhagdybiaethau manwl sy'n sail i'r £0.1 miliwn o gostau untro sy'n gysylltiedig â chostau gweinyddol a chyfreithiol y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg? *(Gweler paragraff 8.75 o'r Memorandwm Esboniadol)*

Y costau gweinyddol a chyfreithiol untro (trosiannol) ychwanegol yw costau tybiannol Llywodraeth Cymru o baratoi rheoliadau a chanllawiau statudol. Cyfrifwyd y bydd y rhain tua £110,000 (yn seiliedig ar 2 staff cyfwerth ag amser llawn ar Fand F a chostau teithio cysylltiedig). Byddai angen i'r swyddogion hyn neilltuo'u hamser i ddrafftio rheoliadau a chanllawiau statudol. Byddai'r rheoliadau'n destun ymgynghoriad, ac felly byddai angen neilltuo amser staff i ymgymryd â'r ymgynghoriad ac i gasglu a dadansoddi'r canlyniadau a pharatoi adroddiadau. Yr amserlen i Lywodraeth Cymru ysgwyddo'r costau ychwanegol (trosiannol) hyn fydd mis Ionawr 2013 - mis Rhagfyr 2013 yn ôl pob tebyg.

Pryd fydd unrhyw oblygiadau i'r awdurdodau lleol o ran cyllid cyfalaf a fydd yn deillio o weithredu'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg fel rhan o broses gynllunio'r ysgol yn hysbys a sut fyddan nhw'n cael eu hariannu? *(Gweler paragraff 8.77 o'r Memorandwm Esboniadol)*

Mae hon yn broses barhaus wrth i'r awdurdodau lleol barhau i gyflawni'u cyfrifoldebau i sicrhau digon o leoedd ysgol ac ystyried yr angen am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn y lleoedd hynny. Mae goblygiadau i gyllid cyfalaf eisoes wedi dod yn amlwg yn y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg gwirfoddol presennol. Mae'r cynlluniau hynny wedi cynnwys gwybodaeth gan awdurdodau lleol am eu cais am gyllid o'r gronfa Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif. Hefyd, mae angen i geisiadau'r awdurdodau lleol am gyllid o'r gronfa Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif ystyried anghenion addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r adborth ar y ceisiadau hyn wedi cynnwys sylwadau sy'n deillio o'r arfarniad o'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg anstatudol cyfredol. Mae cyfarfodydd wrthi'n cael eu cynnal gydag awdurdodau lleol i drafod cam nesaf y Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, yn enwedig addysg cyfrwng Cymraeg a oedd yn un o'r tri

phrif faes polisi y rhoddwyd blaenoriaeth iddynt. Mae'r awdurdodau lleol yn cael eu hail-brofi yn y maes hwn, ynghyd â Thrawsnewid ac Ad-drefnu Ysgolion.

Mae'r don gyntaf o fuddsoddiad, sy'n cwmpasu cyfnod o saith mlynedd, eisoes wedi'i chyhoeddi. Caiff sawl cynnig ar gyfer darparu lleoedd ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion eu cefnogi yn y modd hwn. Serch hynny, mae ychydig o hyblygrwydd a chapasiti yn y gyllideb gyfalaf i fynd i'r afael ag unrhyw gynigion cyfalaf cyfrwng Cymraeg pellach ar gyfer y cyfnod hwnnw a allai ddeillio o'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Bydd swyddogion yn parhau i weithio gyda chydweithwyr yn yr awdurdodau lleol wrth i'r Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif fynd rhagddi.

Yn achos yr awdurdodau lleol hynny sydd naill ai'n mynd ati i fesur y galw, neu y bydd gofyn iddynt fesur y galw, mae'n bosibl y bydd angen iddynt gynyddu'r lleoedd cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion yn y dyfodol. Mae'n bosibl y bydd adnoddau cyfalaf yr awdurdodau eu hunain (gan gynnwys y dyraniadau o'r Gronfa Cyfalaf Cyffredinol) yn dynn yn ystod y cyfnod hwn oherwydd byddant yn blaenoriaethu eu hadnoddau cyfalaf i roi arian cyfatebol ar gyfer y don gyntaf o brosiectau (bydd yr arian cyfatebol yn gymysgedd o arian y Gronfa Cyfalaf Cyffredinol/derbyniadau cyfalaf/benthyca darbodus.) Serch hynny, mae nifer o awdurdodau lleol wedi mabwysiadu dulliau creadigol o ddarparu lleoedd cyfrwng Cymraeg ychwanegol mewn ysgolion gan gynnwys sefydlu dosbarthiadau mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

A gaiff unrhyw gyllid ychwanegol ei neilltuo i ddarparu ar gyfer unrhyw gynnydd posibl yn y galw am athrawon cyfrwng Cymraeg yn sgil y ddyletswydd statudol i baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg?

Mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon ar gyfer Cymru. Defnyddir hwn i hysbysu'r penderfyniadau ynghylch targedau derbyn ar y cynllun Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) ac mae'n creu amcanestyniad o'r athrawon newydd gymhwyso sydd eu hangen i fodloni'r galw am athrawon newydd mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Mae'r targedau blynyddol hyn ar gyfer recriwtio myfyrwyr ar gyrsiau cynradd ac uwchradd yng Nghymru yn cael eu rhoi i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Mae yntau yn ei dro yn dyrannu'r targedau derbyn i ddarparwyr HCA Addysg Uwch yng Nghymru yn ôl y cam astudio a lefel y pwnc. Yn y blynyddoedd diwethaf, bu gostyngiad yn y targedau hynny oherwydd bod gormod o athrawon. Er nad oes unrhyw dargedau derbyn penodol ar gyfer y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, mae CCAUC yn monitro amryfal agweddau ar y boblogaeth myfyrwyr HCA, gan gynnwys nifer y myfyrwyr sy'n cael hyfforddiant i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Hefyd, mae CCAUC yn gweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac â'r darparwyr, fel y bo'n briodol, i ystyried parhad a hyfywedd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn HCA a sut i'w datblygu ymhellach.

Ar hyn o bryd mae'r cyflenwad o athrawon newydd gymhwyso sy'n cael eu recriwtio gan ysgolion cyfrwng Cymraeg yn diwallu'r galw. Mae nifer y swyddi gwag mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael ei fonitro gan y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, ac nid ydym yn rhagweld y bydd angen mwy o leoedd hyfforddi athrawon. Mae Gwasanaeth Gwybodaeth ac Ystadegau Llywodraeth Cymru wedi comisiynu prosiect i edrych ar ansawdd proffwydoliaethau'r Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon, ac a ellid gwneud defnydd ychwanegol ohono, fel efelychiadau o bynciau gan gynnwys y posibilrwydd o broffwydo nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg sy'n debygol o fod yn angenrheidiol yn y dyfodol.

Anelir y Cynllun Gwella Cyfrwng Cymraeg at fyfyrwyr HCA ôl-radd sy'n astudio pynciau uwchradd ac sydd ar hyn o bryd yn gwneud rhan o'u hyfforddiant athrawon neu'r cyfan ohono drwy gyfrwng y Gymraeg. Lluniwyd y rhaglen i wella sgiliau ieithyddol a hyder y rhai hynny sydd eisoes ar gyrsiau HCA er mwyn iddynt ddatblygu'n athrawon cyfrwng Cymraeg. Caiff y rhaglen ei chefnogi gan ffrwd grant ar wahân sy'n werth £280,000, a ariennir gan Linell Wariant yn y Gyllideb Datblygu a Chefnogi Athrawon Llywodraeth Cymru.

Caiff y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg eu cefnogi gan y Grant Cymraeg mewn Addysg, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys tua £5.6 miliwn. Hefyd, mae'r Cynllun Sabothol yn cynnig cyfle i ymarferwyr wella'u sgiliau iaith Gymraeg a chael hyfforddiant methodolegol i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu i gyflwyno Cymraeg Ail Iaith fel rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol.

Brecwast am ddim mewn ysgolion

Cyn i'r cyllid ar gyfer brecwast am ddim gael ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw, beth fydd y Gweinidog yn ei wneud i helpu'r awdurdodau lleol annog cymaint â phosibl i gymryd brecwast am ddim i sicrhau na fydd unrhyw awdurdod lleol, ar ôl i'r arian gael ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw, yn codi pryderon am brinder cyllid os digwydd i'r nifer sy'n cymryd brecwast am ddim gynyddu?

Cyflwynwyd y fenter brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd am y tro cyntaf ym mis Medi 2004 a chafodd ei chyflwyno'n raddol i bob awdurdod lleol. Gwahoddwyd pob ysgol yn ffurfiol i gymryd rhan yn y cynllun erbyn Ionawr 2007. Dewis yr ysgolion a'r disgyblion yw cymryd rhan yn y cynllun ac mae nifer yr ysgolion ychwanegol sy'n dewis ymuno ag ef wedi gostwng yn raddol bob blwyddyn ers 2007-08, oherwydd bod y mwyafrif helaeth o ysgolion sydd am gymryd rhan eisoes wedi ymaelodi. Mae Llywodraeth Cymru wastad wedi'i gwneud yn glir i'r ysgolion bod manteision o gymryd rhan yn y fenter ac mae pob awdurdod lleol wedi penodi cydgysylltydd brecwast am ddim i reoli'r modd y caiff y fenter ei gweithredu'n lleol.

Y gyllideb oedd ar gael i roi'r fenter brecwast am ddim ar waith oedd £10.7 miliwn ar gyfer 2011-12. Yn 2012-13 mae wedi cynyddu i £12.7 miliwn. Pan gaiff y gyllideb ei throsglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw, bydd wedi cynyddu i £14.7 miliwn, gan gwmpasu unrhyw gynnydd yn y nifer sy'n cymryd brecwast am ddim drwy'r wlad. Caiff awdurdodau lleol wybod beth fydd eu dyraniad tybiannol o gyllid y Grant Cynnal Refeniw mewn da bryd cyn dechrau'r flwyddyn ariannol, er mwyn iddynt fedru cynllunio'n fwy effeithiol ar gyfer 2013-14 a thu hwnt.

Wrth gwblhau'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw, mae'r Is-grŵp Dosbarthu (sy'n cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol) wedi ystyried y cyllid parhaus y bydd angen ei drosglwyddo i'r setliad hwn ar gyfer 2012-14 a thu hwnt, ynghyd â'r trefniadau dosbarthu. Derbynnir gan awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru bod symud i fformiwla safonol ar gyfer dyrannu cyllid i'r Grant Cynnal Refeniw yn golygu y gallai rhai awdurdodau lleol gael mwy o gyllid nag a gânt ar hyn o bryd trwy gyfrwng grant penodol, ac y caiff eraill lai.

Mae'r Grant Cynnal Refeniw yn rhoi hyblygrwydd i awdurdodau lleol benderfynu sut orau i ddefnyddio'u cyllid i ddiwallu eu hanghenion lleol ac i gyflawni'u dyletswyddau statudol.

Codi taliadau hyblyg am brydau ysgol

Er bod y Pwyllgor yn derbyn ei bod yn anodd mesur yr union gostau cychwynnol o greu cynllun codi taliadau hyblyg am brydau ysgol, allwch chi roi ystod o'r costau hyn a sut fyddan nhw'n cael eu hariannu?

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn sôn y byddai angen asesu effaith lawn y cynlluniau codi taliadau hyblyg yng ngoleuni cynigion penodol. Ydych chi'n rhagweld y bydd unrhyw gostau ychwanegol ar yr awdurdodau lleol, ac os felly, sut fyddan nhw'n cael eu hariannu?

Nodwch fod yr ateb canlynol yn cyfeirio at y ddau gwestiwn uchod.

Pŵer dewisol yw'r pŵer i godi taliadau hyblyg. Mae rhyddid i awdurdodau lleol unigol neu gyrff llywodraethu ysgolion sydd â chyllideb ddirprwyedig benderfynu a ydynt am ddefnyddio'r pŵer hwn, ac os felly sut. Prif nod taliadau hyblyg yw helpu awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu gynyddu'r nifer sy'n cymryd prydau ysgol drwy amrywio'r prisiau a hyrwyddo'r newidiadau hynny er mwyn denu cwsmeriaid heb gyfaddawdu ar ansawdd na gwerth am arian.

Drwy arfer y pŵer hwn gall awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu fod yn arloesol yn y modd y maent yn codi tâl am brydau ysgol. Felly, fe all y bydd amrywiaeth sylweddol yn y dulliau o wneud hynny, a gallent esgor ar ganlyniadau gwahanol yn dibynnu ar y modd y cânt eu targedu. Hefyd, fe allai'r costau cychwynnol o gyflwyno'r taliadau hyblyg amrywio'n sylweddol.

Er enghraifft, gallai dull awdurdod lleol o weithredu taliadau hyblyg gynnwys:

- gostwng pris prydau am gyfnod penodol ar gyfer disgyblion newydd, er enghraifft disgyblion Blwyddyn 7 i'w denu i'r ffreutur o ddechrau'r tymor ymlaen. Gallai hyn fod am ddiwrnod, wythnos neu hanner tymor;
- cynigion arbennig fel tair eitem am bris dwy neu ddiwrnodau â thema i gyflwyno eitemau newydd o fwyd; a
- gostwng pris prydau ar gyfer teuluoedd mawr neu deuluoedd ar incwm isel, fel £2 y dydd ar gyfer y plentyn cyntaf ac wedyn £1.50 y dydd ar gyfer brodyr neu chwiorydd.

Gallai'r mathau o gostau a allai ddeillio o daliadau hyblyg gynnwys:

- Cwmpasu cost y cynnig arbennig;
- Gallai cynnydd yn y costau olygu y byddai angen cynyddu nifer y staff; a
- Gallai fod cynnydd yn y costau gweinyddol, yn dibynnu ar y modd y caiff taliadau hyblyg eu defnyddio. Er enghraifft, y gost o gasglu data ychwanegol er mwyn mesur effaith y cynnig arbennig.

O ystyried y gallai fod amrywiaeth eang yn y dulliau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol neu gyrff llywodraethu ac amrywiaeth hefyd yn eu costau cychwynnol, ni ellir ond dyfalu beth fyddai'r costau tebygol ac mae hynny'n annhebygol o helpu aelodau'r pwyllgor.

Yn ôl yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ar y cynnig i gyflwyno taliadau hyblyg gwelwyd bod darparwyr gwasanaethau arlwyo awdurdodau lleol yn cydnabod bod gostwng prisiau prydau a chyflwyno cynigion arbennig yn ddulliau defnyddiol o hybu gwerthiant, sef buddsoddiad tymor byr er mwyn cael budd yn y tymor hir. Nid peth newydd yw'r egwyddor o newid prisiau neu gynnig cymhellion eraill i ddenu cwsmeriaid newydd, a chaiff ei ddefnyddio ym mhob sector busnes.

Gallai cynyddu'r nifer sy'n cymryd prydau ysgol drwy godi taliadau hyblyg wneud cyfraniad cadarnhaol at gefnogi mentrau lleol a chenedlaethol penodol fel iechyd, lles a thlodi plant.

Cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol neu gyrff llywodraethu â chyllidebau dirprwyedig fydd asesu'r goblygiadau o arfer taliadau hyblyg drwy gyflwyno prisiau gostyngedig a/neu gynigion arbennig, ac yna ariannu'r cynigion arbennig hynny o'u cyllidebau yn ôl eu cyfraniad at yr agendâu ehangach hyn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi canllawiau i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ynghylch taliadau hyblyg a bydd y canllawiau hynny'n cynnwys gwybodaeth am y materion i'w hystyried cyn cyflwyno hynny, fel costau.

Cyffredinol

O fewn y Memorandwm Esboniadol mae nifer fawr o gostau atodol y cyfeirir atynt fel costau '<u>bach</u>' neu gostau sy'n '<u>amhosibl eu mesur ar hyn o bryd</u>'. Oes gennych chi amcangyfrif o gyfanswm y costau hyn a sut fyddan nhw'n cael eu hariannu?

Ar y cyfan, lle caiff costau eu disgrifio fel rhai 'bach', mae'r rheini'n gostau y gallai'r corff sy'n eu hwynebu fedru eu hysgwyddo heb niweidio ei sefyllfa ariannol neu ei allu i gyflawni ei amcanion. Er na ellir dod i gyfanswm, yr wyf, serch hynny'n fodlon y bydd eu heffaith gronnus hefyd yr un mor fach. Cyfyd ystyriaethau tebyg yn achos costau nad ydynt eto wedi'u mesur oherwydd eu bod yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael (ee Canllawiau Gwella Ysgolion) a/neu asesiad y sawl sy'n dal yr adnodd o'r buddiannau o'i ymrwymo (ee taliadau hyblyg). Rwy'n trafod y pwyntiau hyn yn fanylach isod yng nghyswllt dau faes perthnasol.

Gwella Ysgolion
Fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol, nid oes modd pennu'r union gostau ar hyn o bryd oherwydd bod y gwaith o ddatblygu methodoleg i gasglu a rhannu'r arferion gorau yn dal i fynd rhagddo. Yn bennaf, bwriedir y bydd y canllawiau statudol ynghylch gwella ysgolion yn pennu sut y gallai athrawon, ysgolion neu eraill ymgymryd â'u rolau presennol mewn modd mwy effeithiol yn hytrach na chreu baich gweinyddol ychwanegol ar gyfer ysgolion/ymarferwyr. Rydym yn rhagweld felly, yn y rhan fwyaf o achosion, na fydd unrhyw gostau ychwanegol yn sgil cydymffurfiaeth weinyddol nac unrhyw gostau eraill ynghlwm â'r canllawiau ar gyfer gwella ysgolion.

Cyfarfodydd Blynyddol Rhieni
O ystyried yr amrywiaeth ym maint a lleoliad ysgolion ledled Cymru, byddai'n anodd ac efallai'n gamarweiniol i roi un amcangyfrif o'r costau posibl.

Er enghraifft, mae'r gwahaniaethau yn y costau teithio a'r amser a dreulir gan rieni a llywodraethwyr yn debygol o fod amlycaf rhwng ysgolion gwledig ac ysgolion trefol (mae'r gost o fynychu cyfarfodydd rhieni mewn ysgol wledig yn debygol o fod yn uwch nag mewn ysgol drefol, lle bydd y rhan fwyaf o'r rhieni a'r llywodraethwyr fwy na thebyg yn byw yng nghyffiniau'r ysgol).

Yn yr un modd, bydd y gost i'r rhieni o alw cyfarfod yn amrywio yn ôl maint yr ysgol, a'r dull a ddefnyddir i gasglu llofnodion. Bydd yn haws cael y nifer o lofnodion sy'n ofynnol mewn ysgolion bach iawn, a gallai fod amrywiaeth yn y costau yn dibynnu a yw'r ddeiseb ar ffurf papur neu ar ffurf electronig.

Bydd y costau ar y corff llywodraethu o ran rhoi gwybod i rieni am gyfarfod hefyd yn amrywio yn dibynnu ar faint yr ysgol, oherwydd mae llai o ddisgyblion yn golygu llai o rieni i'w hysbysu.

Yn ôl yr wybodaeth a gafwyd gan awdurdodau lleol sy'n darparu gwasanaethau clercio i gyrff llywodraethu, mae'r gost o ddarparu gwasanaethau o'r fath yn debygol o fod tua £150 y cyfarfod. Pe byddai ysgol yn cynnal 3 chyfarfod y flwyddyn yn hytrach nag un cyfarfod blynyddol â rhieni, byddai'r gost ychwanegol o glercio'r ddau gyfarfod ychwanegol tua £300.

Ar y cyfan, bach iawn o gynnydd fydd yn y costau, a dylid pwyso a mesur hynny yn erbyn manteision posibl y diwygiadau.

Wrth gwrs, mae'n ddigon posibl na ofynnir am unrhyw gyfarfodydd mewn rhai ysgolion, ac felly arbedir y gost o gynnal y cyfarfod blynyddol â rhieni bob yn ail flwyddyn.

Yn eu tystiolaeth, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru eu bod yn disgwyl y byddai Llywodraeth Cymru yn talu'r holl feichiau ariannol ychwanegol ar awdurdodau lleol o weithredu'r Bil. Allwch chi gadarnhau mai felly y bydd hi?

Ar y cyfan, byddwn yn disgwyl y byddai'r effaith ariannol ar awdurdodau lleol yn sgil darpariaethau'r Bil yn isel, ac y byddai awdurdodau lleol yn talu am hyn o'u hadnoddau eu hunain, gan gynnwys, yn achos materion sy'n ymwneud ag ad-drefnu ysgolion, drwy ailgyfeirio arbedion a gafwyd drwy symleiddio'r prosesau perthnasol. Ar y llaw arall, lle gallai'r beichiau ariannol fod yn sylweddol (fel yn achos y strategaeth ddamcaniaethol ar gyfer gwella ysgolion a gostiwyd yn y Memorandwm Esboniadol ac a drafodwyd uchod), byddwn yn rhagweld y caiff cyllid ychwanegol ei ddarparu. Rwy'n ymhelaethu ar y pwyntiau hyn isod.

Ymyrryd mewn ysgolion sy'n peri pryder
Nid yw'r darpariaethau hyn yn gosod beichiau ychwanegol sylweddol ar awdurdodau lleol, oherwydd maent yn ymwneud â'u pwerau presennol - ac yn wir eu dyletswyddau - i ymyrryd. Dylai ehangu'r meini prawf er mwyn medru cyflwyno hysbysiadau rhybuddio yn gynt arbed arian yn y tymor hir, oherwydd, er y gall fod cynnydd yn nifer yr ymyriadau cynnar, byddem yn disgwyl gostyngiad cyfatebol yn yr angen am ymyriadau mwy dwys a drutach yn nes ymlaen.

Gwella Ysgolion
Roedd y dadansoddiad manwl o gostau ar gyfer y darpariaethau gwella ysgolion yn cynnwys amcangyfrif o £1 miliwn i helpu gyda'r hyfforddiant cychwynnol a'r costau o ran adnoddau mewn awdurdodau lleol, gyda £2.5 miliwn arall i ariannu costau'r awdurdodau lleol o ddarparu cymorth parhaus i ysgolion gyda broses weithredu (dros gyfnod o 3-5 mlynedd). Mae'r costau hyn yn seiliedig ar weithredu un maes polisi â blaenoriaeth. Bydd asesiad manwl o'r goblygiadau o ran yr adnoddau ychwanegol yn cael ei wneud fel rhan o'r asesiad ehangach o effaith blaenoriaethau'r dyfodol ar gyfer gwella ysgolion. Os bydd hynny'n briodol, bydd unrhyw feichiau gweinyddol ychwanegol a fydd yn effeithio ar awdurdodau lleol yn cael cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

Trefniadaeth Ysgolion - Paneli Dyfarnu Lleol
Yr awdurdodau lleol fyddai'n ysgwyddo'r gost o weithredu'r paneli dyfarnu lleol, ond disgwylir y bydd yr arbedion fydd yn cael eu gwneud drwy fod â phroses symlach yn drech na'r costau hynny, ac felly ni fyddent yn faich ariannol ychwanegol ar yr awdurdodau lleol.

Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg
Mae pob un o'r 22 awdurdod lleol eisoes yn paratoi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn wirfoddol. Mae'r awdurdodau lleol eisoes yn ysgwyddo'r adnoddau staff a'r costau sy'n gysylltiedig â chyhoeddi a dosbarthu'r cynlluniau, ac yn eu trafodaethau â swyddogion AdAS, awgrymodd yr awdurdodau lleol bod hyn yn ymrwymiad rhesymol. Felly, ni fyddai hyn yn faich ariannol ychwanegol arnyn nhw. Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol eisoes yn cynnal arolwg o'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, ond yn achos yr awdurdodau hynny nad ydynt wedi gwneud hynny hyd yma, ychydig o gostau fydd arnynt, sef £5,000 y flwyddyn.

Cyfarfodydd Blynyddol Rhieni
Er mai'r awdurdod lleol, o bosibl, fydd yn gyfrifol am y costau ychwanegol o glercio cyfarfodydd ychwanegol, fel y nodir uchod, byddwn yn disgwyl y byddai'r costau hynny'n fach iawn (heb fod yn fwy na £300 y flwyddyn fesul ysgol) ac yn rhai eithriadol.

Taliadau hyblyg
Pŵer dewisol nid gorfodol yw'r pŵer i godi taliadau hyblyg, fel y soniwyd eisoes. Y sawl sy'n dal y gyllideb ddirprwyedig sydd i benderfynu a yw am ddefnyddio'r pŵer hwn, a sut y mae am ei ddefnyddio; i wneud hynny byddai angen clustnodi arian priodol.

Cwnsela mewn ysgolion
Ni fydd unrhyw faich ariannol ychwanegol ar yr awdurdodau lleol. Byddai'r gyllideb ar gyfer cwnsela mewn ysgolion yn cael ei throsglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw. Byddai rhai arbedion i awdurdodau lleol oherwydd byddai rhai o'r gofynion gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r grant penodol wedi cael eu diddymu.

Y fenter brecwast am ddim
Byddai'r gyllideb ar gyfer brecwast am ddim yn cael ei throsglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw pan fydd wedi'i chynyddu o £2 filiwn i ganiatáu ar gyfer ehangu'r cynllun. Byddai rhai arbedion hefyd oherwydd byddai rhai o'r gofynion gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r grant penodol wedi cael eu diddymu.